O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2409 (Cy. 259)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Medi 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafford") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 41, Pentyla i Gyffordd 42, Earlswood, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o Draffordd yr M4 ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r drafford a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 18 Medi 2012

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 41, Pentyla, i bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42, Earslwood.

i Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42, Earslwood, i bwynt wrth drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 41, Pentyla.

iii. Y darnau cyfan o'r y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 42, Earslwood.